Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Judith Paget - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Steve Ham - Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

23 Mawrth 2023

Annwyl gyfeillion,

Cefais ohebiaeth sy'n nodi pryderon am y newidiadau arfaethedig i wasanaethau canser Felindre a datblygiad Canolfan Ganser Felindre newydd. Mae'r materion a godwyd yn cyffwrdd â'r model clinigol cyffredinol a'r achos dros y Ganolfan newydd sydd, mi wn, wedi cael ei drafod mewn man arall, yn ogystal â'r amserlen a'r costau diweddaraf. Fodd bynnag, mae a wnelo'r materion hyn hefyd â chysylltiad posibl â chontract Model Buddsoddi Cydfuddiannol y cwmni Kajima, o ystyried materion cyfreitha yn Lloegr a'r sôn am achos troseddol yn erbyn swyddogion gweithredol cwmnïau tramor mewn perthynas ag arferion ceisiadau. Yn yr un modd, mae cwmni o'r enw Sacyr, sydd hefyd yn rhan o'r cynigydd a ffafrir gan Ymddiriedolaeth Felindre, sef consortiwm 'Acorn, ar gyfer contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd Felindre wedi cael ei ddirwyo am rigio ceisiadau.

O ystyried cylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, rwyf yn ceisio rhagor o wybodaeth a sicrwydd, a gofynnaf ichi ddarparu'r canlynol:

- Cadarnhad o statws presennol y trefniadau cytundebol ar gyfer y prif gontract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ac unrhyw gontractau cysylltiedig eraill.

- Manylion y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd ar wahanol gamau yn y broses gaffael ar gyfer y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan gynnwys sut y mae/a yw'r pryderon ynghylch Kajima a nodwyd uchod wedi ymddangos yn y broses honno, unrhyw sicrwydd ychwanegol a geisiwyd o ganlyniad, neu unrhyw fesurau diogelu perthnasol sy'n cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau contractio.

- Dadansoddiad o gostau'r prosiect i ddatblygu'r Ganolfan newydd hyd yma, ac amcangyfrif o gostau oes y prosiect, gan gynnwys y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Byddem hefyd yn gofyn am unrhyw gymhariaeth y gellir ei darparu ag amcangyfrifon yn gynharach yng nghylch oes y prosiect ar bwyntiau penderfynu allweddol (e.e. cymeradwyo achos busnes llawn), ac esboniad o'r prif resymau dros unrhyw gynnydd mewn costau.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

- Manylion yr amserlen bresennol ar gyfer cwblhau cam adeiladu'r prosiect ac agor y Ganolfan newydd, eto o'u gymharu ag amcangyfrifon ar adegau allweddol yn gynharach yng nghylch oes y prosiect.

- Cadarnhad, cyn y cytunir ar y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a yw Llywodraeth Cymru a/neu’r Ymddiriedolaeth wedi ailasesu mewn unrhyw ffordd yr achos busnes cyffredinol ar gyfer y prosiect, o ystyried effaith pwysau chwyddiant neu ffactorau eraill, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn fodlon bod y cynlluniau ar gyfer y Ganolfan newydd yn rhoi’r gwerth gorau am arian ac ateb clinigol cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy (dros oes y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol a’r tu hwnt).

Rwy’n cydnabod y gallai fod sensitifrwydd masnachol o ran ymateb i rai o’r materion hyn, ond gofynnwn ichi drafod problemau ymdrin â’r materion hyn â’r tîm clercio wrth geisio ymateb mor llawn â phosibl.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Copïau at: Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol